Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2020 – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2160A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 12

Atodiad 2 – ffi archwilio 14

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 15

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2020 yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Digwyddodd y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. O ystyried ei effaith, ail-luniais fy rhaglenni gwaith arfaethedig drwy ystyried y ffordd orau o roi sicrwydd i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Ystyriais effaith yr argyfwng presennol ar gadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol a'm nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn rhwystro cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Ataliwyd yr holl waith archwilio ar safleoedd wrth inni barhau i weithio ac ymgysylltu o bell pan oedd hynny'n bosibl, gan ddefnyddio technoleg. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar gyflawni rhywfaint o'm gwaith archwilio arfaethedig, ond mae hefyd wedi sbarduno newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

4 Nid oedd cyflawni fy archwiliad o waith cyfrifon heb ei heriau, nid yn unig o ran sut a ble y gwnaethom ymgymryd â'r gwaith, ond hefyd o ran ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol sy'n deillio'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r llwyddiant o ran cyflawni'r amserlen ddiwygiedig yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion yr Ymddiriedolaeth, er mwyn croesawu a galluogi ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg ac yn ystyriol o'r materion niferus sy'n codi.

5 Ar ddechrau'r pandemig, ataliais dros dro gyhoeddi rhai adroddiadau archwilio perfformiad a oedd bron wedi eu cwblhau, gan adlewyrchu capasiti cyrff a archwilir i gefnogi'r gwaith maes a oedd yn weddill ac er mwyn cyfrannu at glirio allbynnau archwilio drafft. Rwyf hefyd wedi addasu pwyslais a dull rhai adolygiadau arfaethedig eraill er mwyn sicrhau eu perthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng.

Mae ffrydiau gwaith newydd wedi eu cyflwyno, megis fy adolygiad o'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, ac mae fy nhimau archwilio lleol wedi cyfrannu at fy ngwaith dysgu COVID-19 ehangach.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith arfaethedig sy'n cael ei ail-gwmpasu ar hyn o bryd.

7 Cyflwyna **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am y costau o ymgymryd â'm gwaith, o'i chymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2020.

8 Noda **Atodiad 3** y risgiau archwilio ariannol a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2020 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

9 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynwyd gennym i'r Pwyllgor Archwilio ar 21 Ionawr 2020. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog yr Ymddiriedolaeth yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

11 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth (fel yr oeddent yn berthnasol i'm harchwiliad). Fodd bynnag, rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad er mwyn tynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â'r Cyfarwyddyd Gweinidogol i Lywodraeth Cymru ar gyfer ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG y tu hwnt i drothwy lwfans blynyddol y cynilion pensiwn yn 2019-20.

12 Ni nodais unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2019-20 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn unol ag awdurdodau na thrafodiadau na ddefnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2019-20 yr Ymddiriedolaeth.

13 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Gan nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen tynnu sylw atynt, ni osodwyd adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

14 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad yr Awdurdod wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- addasodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau llywodraethu a rheoli risgiau er mwyn cynnal systemau sicrwydd yn ystod ei hymateb i gam cyntaf y pandemig ac mae'n gwneud cynnydd tuag at welliannau tymor hwy.
- mae trefniadau rheoli adnoddau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio'n dda er mwyn datblygu ei chynlluniau gweithredol a monitro'r broses o'u cyflawni. Cynhaliwyd gwaith parhaus i nodi'r adnoddau angenrheidiol, er mwyn cyflawni ei chynlluniau, ond nid oedd y Cyngor Iechyd Cymuned ynghlwm yn y broses o ddatblygu cynlluniau yn ddigon cynnar.
- mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll, mae ganddi drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal ac o ganfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd.

15 Rhoddir ystyriaeth bellach i'r canfyddiadau hyn yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

16 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2019-20. Sut mae'r sefydliad yn dangos eu perfformiad ariannol ac yn nodi eu hasedau net, eu costau gweithredu net, eu henillion a'u colledion cydnabyddedig, a'u llifau arian parod yw'r datganiadau hyn. Mae paratoi'r datganiadau yn elfen hanfodol o ran dangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

17 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2019-20 yr Ymddiriedolaeth. Mae **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

18 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi datganiadau ariannol 2019-20

19 **Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth (fel yr oeddent yn berthnasol i'm harchwiliad). Fodd bynnag, rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad er mwyn tynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â Chyfarwyddyd Gweinidogol i Lywodraeth Cymru ar gyfer ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG y tu hwnt i drothwy lwfans blynyddol y cynilion pensiwn yn 2019-20.**

20 Derbyniais y cyfrifon drafft yn unol â'r terfynau amser rhagnodedig diwygiedig a pharatowyd y papurau gwaith ategol i safon dda yn gyffredinol.

21 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny yr ystyriais eu bod yn berthnasol i'r archwiliad er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiad sylweddol yn y cyfrifon. Nid ystyriais nhw at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd y broses o weithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth.

22 Cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 25 Mehefin 2020. Crynhoa **Arddangosyn 1** faterion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol nad oeddent wedi eu cywiro. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Gwnaed nifer o addasiadau i'r cyfrifon drafft. Roedd y rhain yn fach eu natur ac ni chawsant unrhyw effaith ar warged yr Ymddiriedolaeth. |
| Materion arwyddocaol eraill | Rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad archwilio er mwyn tynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud ag effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol i Lywodraeth Cymru ar gyfer ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG y tu hwnt i drothwy lwfans blynyddol y cynilion pensiwn yn 2019-20. Nid addaswyd fy marn mewn cysylltiad â'r mater hwn. |

23 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol wedi ei gwblhau a chyhoeddais farn ddiamod ar y cyfrifon ar 18 Rhagfyr 2020.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

24 **Ni nodais unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2019-20 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn unol ag awdurdodau na thrafodiadau na ddefnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2019-20 yr Ymddiriedolaeth.**

25 Mae'n rhaid i drafodiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw. Mae'n rhaid bod ganddi'r pwerau i dderbyn yr incwm ac i wario'r arian. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan yr Ymddiriedolaeth y pwerau i'w derbyn neu i'w hysgwyddo.

26 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Oherwydd nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen tynnu sylw atynt, ni osodwyd adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

27 Mae gennyf y pŵer i gyflwyno adroddiad o sylwedd ynghylch cyfrifon yr Ymddiriedolaeth ynghyd â'm barn pan rwyf yn dymuno tynnu sylw at faterion. Ni chyhoeddais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon oherwydd bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dwy ddyletswydd ariannol ac nad oedd unrhyw faterion eraill yn cyfiawnhau adroddiad.

28 Cadwodd yr Ymddiriedolaeth ei hanes o sicrhau balans ariannol yn 2019-20 a nododd warged bach o £24,000. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol o fantoli'r cyfrifon yn ystod cyfnod treigl tair blynedd 2017-2020 ac o gael cynllun tymor canolig integredig ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

29 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; ac
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau gwrth-dwyll yr Ymddiriedolaeth.

30 Nodir isod fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn.

## Asesiad strwythuredig

31 Cynlluniwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Sicrheais ddull addas o bragmatig a pherthnasol i'm helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Roedd pwyslais allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol pan fu'r rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol, yn enwedig o dan yr amgylchiadau presennol.

32 Grwpiodd yr asesiad strwythuredig ein canfyddiadau o dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol: cefnogi'r ymateb parhaus i'r pandemig yn gytbwys o'i gymharu â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

## Trefniadau llywodraethu

33 Roedd fy ngwaith yn ystyried gallu'r Ymddiriedolaeth i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn gan orfod ymateb yn sydyn i'r heriau digynsail a gyflwynir gan y pandemig. Canfu fy ngwaith fod **yr Ymddiriedolaeth wedi addasu ei threfniadau llywodraethu a rheoli risgiau er mwyn cynnal systemau sicrwydd yn ystod ei hymateb i gam cyntaf y pandemig ac mae'n gwneud cynnydd tuag at welliannau tymor hwy**.

34 Gweithiodd yr Ymddiriedolaeth a'i Bwrdd yn dda o dan bwysau i addasu trefniadau llywodraethu. Rhennir busnes yn effeithiol rhwng y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae busnes y Bwrdd yn dryloyw ac fe'i cyfathrebir yn dda. Mae gwybodaeth yn llifo'n effeithiol o dîm gweithredol yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd ac mae'n amlwg bod y Bwrdd yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau. Mae aelodau'r Bwrdd yn craffu'n dda a cheir parch rhwng y naill a'r llall ymhlith aelodau'r Bwrdd.

35 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu a mireinio ei threfniadau llywodraethu a chorfforaethol, gan chwilio am ffyrdd o wella. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer sicrhau gwasanaethau diogel o safon a rheoli risgiau. Mae'n parhau i ddarparu gwybodaeth dda er mwyn sicrhau'r Bwrdd a'i Phwyllgorau o ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau.

## Rheoli adnoddau ariannol

36 Ystyriais berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol. Canfûm fod **trefniadau rheoli adnoddau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda**.

37 Mae trefniadau rheoli adnoddau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda. Cyflawnodd ei dyletswyddau ariannol o fantoli'r cyfrifon dros flwyddyn ariannol 2019-20 a'r cyfnod treigl tair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ragweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon yn 2020-21. Mae sicrhau balans ariannol yn gofyn am gyllid ychwanegol er mwyn talu'r costau parhaus o ymateb i COVID-19. Ym mis Rhagfyr 2020, cafodd yr Ymddiriedolaeth gadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddai'n cael y cyllid ychwanegol y gofynnwyd amdano. Mae gan yr Ymddiriedolaeth reolaethau ariannol cryf ac mae'n darparu gwybodaeth glir am berfformiad ariannol a risgiau ar gyfer gwaith craffu'r Bwrdd.

## Cynllunio Gweithredol

38 Ystyriodd fy ngwaith gynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran datblygu a chyflawni'r ddau gynllun gweithredol chwarterol cyntaf ar gyfer 2020-21 er mwyn cefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 a darparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, canolbwyntiwyd ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau

arferol a rheolaidd pan fydd gwneud hynny'n ddiogel ac yn ymarferol. Canfu fy ngwaith fod **yr Ymddiriedolaeth wedi gweithio'n dda er mwyn datblygu ei chynlluniau gweithredol a monitro'r broses o'u cyflawni. Cynhaliwyd gwaith parhaus i nodi'r adnoddau angenrheidiol, er mwyn cyflawni ei chynlluniau, ond nid oedd y Cyngor Iechyd Cymuned ynghlwm yn y broses o ddatblygu cynlluniau yn ddigon cynnar.**

39 Datblygodd yr Ymddiriedolaeth gynlluniau gweithredol yn sydyn fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi'n barhaus yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r cynlluniau ac i asesu goblygiadau anhysbys y pandemig. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi risgiau i weithredu ei chynlluniau, gan gynnwys goblygiadau ailgychwyn gwasanaethau o ran adnoddau. Mae'r Bwrdd wedi bod ynghlwm yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau ac mae wedi cytuno ar drefniadau ar gyfer monitro cynnydd. Ymgysylltodd yr Ymddiriedolaeth â rhanddeiliaid er mwyn datblygu a gweithredu ei chynlluniau, ond byddai'n elwa o ymgysylltu'n gynharach â'r Cyngor Iechyd Cymuned er mwyn llywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## Effeithiolrwydd y trefniadau gwrth-dwyll

40 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddais drosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn disgrifio trefniadau gwrth-dwyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yna, cynhaliodd fy nhîm archwiliad manylach ar draws ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau gwrth-dwyll yn ymarferol a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddais Gwella Ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru sy'n nodi crynodeb o'm canfyddiadau a saith 'thema allweddol' y mae angen i bob corff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth wella eu perfformiad er mwyn mynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol.

41 Er na chafodd y gwaith hwn ei gynnwys yn y cynllun archwilio, cyhoeddais adroddiad ychwanegol hefyd sy'n nodi trefniadau penodol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer atal a chanfod twyll. Canfûm fod **yr Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll, bod ganddi drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal ac o ganfod twyll, a'i bod yn gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd.**

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a ddosbarthwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2020.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | Mehefin 2020 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2020 |
| Atodiad yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon | Medi 2020 |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2020 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2020 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2020 | Medi 2020 |
| Effeithiolrwydd y trefniadau gwrth-dwyll | Hydref 2020 |

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2020 | Mawrth 2020 |
| Yr wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Archwilio 2020 | Ebrill 2020 |

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Ceir un archwiliad perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo yn yr Ymddiriedolaeth. Fe'i dangosir yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiad amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau |
| --- | --- |
| Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | Ebrill 2021 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2020 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £208,996 (heb gynnwys TAW). Ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yw £212,996. Mae'r cynnydd yn deillio o waith ychwanegol sydd ei angen mewn cysylltiad ag archwilio cyfrifon y cronfeydd elusennol. Yn anffodus, roedd y gwaith ychwanegol yn golygu nad oeddem yn gallu cadw costau'r archwiliad o fewn y ffi o £8,167 (ar gyfer yr elfen hon o'r gwaith) a nodir yng Nghynllun Archwilio 2020.

# Atodiad 3

## Risgiau archwiliad ariannol

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2019-20 yr Ymddiriedolaeth. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Y risg bod rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai'r gwrthwneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.31-33]. | Cynigiodd fy nhîm archwilio:<br>• brofi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu, dyfarniadau a phenderfyniadau a wneir gan y rheolwyr am ragfarn;<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Ystyriodd fy nhîm archwilio y ffactorau risg a nodir yn Safon Ryngwladol ar Archwilio 240, ac ni nododd cwblhad ein gwaith archwilio unrhyw dystiolaeth bod rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar allu cyrff a archwilir i baratoi cyfrifon drafft yn 2019-20. Mae'r amserlen ar gyfer llunio ac ardystio cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi ei diwygio, ond mae perygl o hyd y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol gael ei gyfaddawdu, a fyddai'n arwain at ragor o achosion o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu cyfaddawdu hefyd oherwydd materion amseru a/neu'r adnoddau sydd ar gael. | Cynigiodd fy nhîm archwilio asesu effaith COVID-19 ar y cyfrifon drwy:<br>• adolygu'r broses o gau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon;<br>• gwerthuso effaith COVID-19 ar y gwerthoedd a'r datgeliadau yn y cyfrifon;<br>• adolygu'r cyfrifon, gan chwilio am unrhyw amcangyfrifon 'newydd' a allai fod yn destun rhagfarn; a<br>• phrofi croniadau am resymoldeb a chyflawnrwydd. | Ystyriodd fy nhîm archwilio feysydd y cyfrifon sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan COVID-19, gan adolygu:<br>• y broses o gau cyfrifon;<br>• cofnodion cyfrifyddu mewn cysylltiad â COVID-19 yng nghyfrifon 2019-20;<br>• amcangyfrifon cyfrifyddu newydd a wnaed gan y rheolwyr; a<br>• chredydwyr a chroniadau ar gyfer rhwymedigaethau nas cofnodwyd.<br>Canfu ein gwaith mai ychydig iawn o effaith a gafodd COVID-19 ar sefyllfa ariannol 2019-20 a chadarnhaodd fod y sefyllfa wedi ei datgelu'n gywir. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae gan Ymddiriedolaethau’r GIG ddyletswydd ariannol i fantoli’r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld sefyllfa o fantoli’r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, mae’r ddyletswydd hon yn cynyddu’r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon gan reolwyr a gynhwysir yn y datganiadau ariannol fod yn rhagfarnllyd mewn ymdrech i gyflawni’r ddyletswydd ariannol.<br>Pan fo’r Ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni’r ddyletswydd ariannol hon, byddaf yn cyflwyno adroddiad sylweddol ynghylch y datganiadau ariannol, sy’n tynnu sylw at y methiant. | Cynigiodd fy nhîm archwilio ganolbwyntio eu profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys rhagfarn wrth lunio adroddiadau. | Ystyriodd fy nhîm archwilio feysydd y cyfrifon sydd fwy tebygol o gynnwys rhagfarn wrth lunio adroddiadau, gan adolygu’r canlynol:<br>• amcangyfrifon cyfrifyddu, dyfarniadau a phenderfyniadau a wnaed gan y rheolwyr am ragfarn;<br>• credydwyr am rwymedigaethau nas cofnodwyd; a<br>• dyledwyr am orddatganiad o’r incwm sy’n ddyledus.<br>Ni ddeilliodd unrhyw faterion o’r gwaith a gynhaliwyd. |

| **Risg archwilio** | **Ymateb arfaethedig yr archwiliad** | **Y gwaith a wnaed a'r canlyniad** |
|---|---|---|
| Mae nifer o newidiadau wedi digwydd i'r tîm uwch-reolwyr yn ystod y flwyddyn ariannol. Ceir risg nad yw'r newidiadau hyn yn cael eu datgelu'n gywir yn Adroddiad Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth. | Cynigiodd fy nhîm archwilio brofi'r datgeliadau a wnaed yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ac adolygu unrhyw newidiadau i swyddogaethau a chyfrifoldebau a newidiadau sy'n gysylltiedig â lefelau cydnabyddiaeth ariannol. | Profodd fy nhîm archwilio y datgeliadau a wnaed yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth, gan adolygu unrhyw newidiadau i swyddogaethau a chyfrifoldebau, a'r newidiadau sy'n gysylltiedig â lefelau cydnabyddiaeth ariannol.<br>Nododd hyn nifer o newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer yr Adroddiad Cydnabyddiaeth, a gywirwyd gan yr Ymddiriedolaeth. |
| Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog Gyfarwyddyd Gweinidogol ffurfiol i'r Ysgrifennydd Parhaol yn ei gwneud yn ofynnol iddi weithredu menter 'cynllun sy'n talu' mewn cysylltiad â threfniadau treth bensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol. | Gwnaethom gynnig ystyried y driniaeth gyfrifyddu a'r goblygiadau o archwilio'r cyfarwyddyd (y cyntaf yng Nghymru ers 1999) ar y cyd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a oedd yn mynd i'r afael â'r un mater yn GIG Lloegr. | Ystyriodd fy nhîm archwilio driniaeth gyfrifyddu a goblygiadau archwilio y cyfarwyddyd. Rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad archwilio sy'n tynnu sylw at y datgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud ag effaith y cyfarwyddyd. |
| Mae cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr wedi cynyddu o 14.3% i 20.68%, sy'n gost ychwanegol sylweddol i'r Ymddiriedolaeth. Rydym yn deall y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo cost y cynnydd hwn yn 2019-20. | Cynigiodd fy nhîm archwilio brofi costau'r gyflogres a datgeliadau cysylltiedig a wnaed yn y datganiadau ariannol er mwyn cadarnhau bod y costau ychwanegol hyn wedi eu datgelu a'u cyfrif yn gywir. | Profodd fy nhîm archwilio gostau'r gyflogres a datgeliadau cysylltiedig, a chadarnhaodd hyn fod y cynnydd tybiannol mewn pensiwn wedi ei gyfrif yn gywir a'i ddatgelu yn y cyfrifon. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.